Adran Gwaith
a Phensiynau

# Nodiadau Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn

**Mae gennym lawer o ffyrdd y gallwn gyfathrebu â chi**

Os hoffech braille, Iaith Arwyddion Prydain, dolen glyw, cyfieithiadau, print bras, sain neu rywbeth arall, ffoniwch ni ar **0800 169 0240** neu ffôn testun **0800 169 0314** a dywedwch wrthym pa un sydd ei angen arnoch.

Mae galwadau i rifau 0800 am ddim o linellau tir a ffonau symudol.

**SF100W Notes** 06/23

# Cynnwys

**Pwy all gael Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn? ........ 3**

**Pryd i wneud cais am Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn ........ 5**

**Sut i wneud cais am Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn ........ 6**

**Sut y byddwn yn eich talu ........ 6**

**Os byddwn yn talu gormod o arian i chi ........ 7**

**Mwy o wybodaeth ........ 7**

## Gwybodaeth bwysig

Cyn i chi lenwi'r ffurflen gais bydd angen i chi ddarllen y nodiadau hyn. Maent yn cynnwys gwybodaeth bwysig ac yn helpu egluro rhai o'r cwestiynau rydym yn gofyn a'r rheswm dros hyn. Gallwch hefyd ddod o hyd i'r wybodaeth hon yn **www.gov.uk/grant-mamolaeth-cychwyn-cadarn**

Sylwer gallwch dim ond cael Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn os:

- mae gweithiwr iechyd proffesiynol fel eich meddyg neu fydwraig wedi darparu cadarnhad o'ch beichiogrwydd neu enedigaeth drwy ddefnyddio MATB1W neu ddatganiad ysgrifenedig arall. Dylai'r datganiad hwn gynnwys eich:
  - enw
  - rhif Yswiriant Gwladol y rhiant neu'r hawlydd
  - yr wythnos y disgwylir genedigaeth eich plentyn
  - dyddiad geni plentyn neu blant
  - enw llawn a llofnod y gweithwyr iechyd proffesiynol,meddygfa neu gyfeiriad swyddfa
  - rhif PIN
  - rhif ffôn cyswllt.
- rydym yn cael eich ffurflen gais llawn o 11 wythnos cyn yr wythnos y disgwylir i'r babi gael ei eni, ac
- o fewn 6 mis ar ôl genedigaeth y babi, neu
- rydych yn hawlio o fewn 6 mis ar ôl i fabi gael ei leoli gyda chi ac nad yw'n fwy na 12 mis oed.

Am fwy o wybodaeth pryd i wneud cais, ewch i **dudalen 5** neu ewch i **www.gov.uk/grant-mamolaeth-cychwyn-cadarn/sut-i-wneud-cais**

### Trin pobl yn deg

Rydym wedi ymrwymo i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac i drin pobl yn deg. I ddarganfod mwy am y gyfraith hon, chwiliwch am 'Cydraddoldeb' ar **www.gov.uk/cymraeg**

Mae **Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn** yn daliad untro i helpu tuag at gostau cael babi newydd neu ddod yn gyfrifol am blentyn o dan 12 mis oed.

Nid oes yn rhaid i chi dalu'r grant nôl ac ni fydd yn effeithio ar unrhyw fudd-daliadau neu gredydau eraill. Am fwy o wybodaeth, ewch i
**www.gov.uk/grant-mamolaeth-cychwyn-cadarn**

### Os ydych yn byw yn yr Alban

Ni allwch gael Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn os ydych yn byw yn yr Alban.

Mae grantiau eraill ar gael. Ewch i:
**www.mygov.scot/best-start-grant-best-start-foods**

## Pwy all gael Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn?

Fel arfer i gael Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn, rhaid i chi neu'ch partner:

- byw yng Nghymru a Lloegr
- bod yn feichiog gyda'ch plentyn cyntaf
- eisoes gyda phlentyn neu blant o dan 16 oed yn byw yn eich cartref teuluol ond rydych yn disgwyl genedigaeth lluosog, fel gefeilliad neu dripledi, neu
- bod gennych blentyn neu blant dan 16 oed cyn i chi gyrraedd y DU ac mae un o'r canlynol yn wir:
  - wedi cael statws amddiffyn ffoaduriaid neu ddyngarol
  - eich bod wedi gadael Afghanistan oherwydd cwymp llywodraeth Afghanistan a ddigwyddodd ar 15 Awst 2021 neu
  - roeddech yn byw yn yr Wcráin yn union cyn 1 Ionawr 2022 a gwnaethoch  adael oherwydd goresgyniad Rwsia ar 24 Chwefror 2022
- rydych chi neu'ch partner yn gyfrifol am blentyn neu blant, fel Gofalwr sy'n Berthynas ac roedd y plentyn neu'r plant o dan 12 mis oed pan ddechreuodd y trefniant hwn
- rydych yn hawlio o 11 wythnos cyn yr wythnos y mae disgwyl i chi neu'r plentyn dibynnol rhoi enedigaeth i'ch babi neu fabis
- rydych yn hawlio dim hwyrach na 6 mis ar ôl i'ch babi neu'ch babis cael ei geni neu eu geni, neu'r dyddiad y rydych yn dod yn gyfrifol am blentyn neu blant nad ydynt yn fwy na 12 mis oed, **a**
- **cael un o'r budd-daliadau canlynol:**
  - Credyd Cynhwysol
  - Credyd Treth Plant
  - Credyd Treth Gwaith sy'n cynnwys elfen anabledd neu elfen anabledd difrifol
  - Cymhorthdal Incwm
  - Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm
  - Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm
  - Credyd Pensiwn
  - Cymorth ar gyfer Llog Morgais.

Os ydych yn cael Lwfans Mamolaeth gallech hefyd wneud cais am Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn os ydych yn cael un o'r budd-daliadau a restrir.

Os ydych yn aros am benderfyniad ar fudd-dal a restrir neu os ydych wedi gofyn i'ch dyfarniad Credyd Treth Plant gael ei adolygu, gallwch barhau i hawlio Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn, ond rhaid i chi hawlio o 11 wythnos cyn yr wythnos y disgwylir i'ch babi gael ei eni, a chyn i'ch babi fod yn 6 mis oed.

Os ydych yn cael un o'r budd-daliadau a restrir, ac mae angen help arnoch i brynu pethau ar gyfer y babi sydd:

- wedi cael ei eni'n ddiweddar neu'n disgwyl cael ei eni o fewn yr 11 wythnos nesaf, **a**
- chi yw'r fam, y tad neu'r mam sy'n disgwyl neu ei phartner,
- rydych yn cael budd-dal ar ran y fam neu'r mam sy'n disgwyl ac maent o dan 20 oed, neu
- wedi ei eni'n ddiweddar ac rydych wedi dod yn gyfrifol am y plentyn hwnnw. Er enghraifft, Gofalwr sy'n Berthynas, neu
- yn destun i orchymyn mabwysiadu neu breswylio, neu
- yn destun i orchymyn bod yn rhiant mewn perthynas â genedigaeth benthyg croth, neu
- wedi cael ei leoli â chi ar gyfer ei fabwysiadu, neu
- rydych wedi cael eich penodi'n warchodwr i'r plentyn, neu
- rydych wedi mabwysiadu o dramor, neu
- rhoddwyd gorchymyn rhiant i chi gyda'ch partner o dan adran 30 o Ddeddf Ffrwythloni Dynol ac Embryoleg 1990 neu adran 54/54A o'r Ddeddf 2008.

Ni fyddwch yn cael Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn os:

- oes unrhyw blant o dan 16 oed yn byw gyda chi, waeth ble y cafodd ei eni, oni bai yn yr amgylchiadau a restrir uchod
- mae'r Best Start Grant neu'r taliad Pregnancy and Baby eisoes wedi cael ei dalu i chi neu rywun arall am babi hwn neu'r babis hyn
- rydych yn hawlio yn gynharach nag 11 wythnos cyn yr wythnos y disgwylir i chi roi enedigaeth i'ch babi neu fabis
- rydych yn hawlio 6 mis ar ôl dyddiad geni eich babi neu fabis neu'r dyddiad y daethoch yn gyfrifol am blentyn neu blant
- mae'r plentyn neu blant rydych yn dod yn gyfrifol amdano neu amdanynt dros 12 mis oed.

I gael mwy o wybodaeth am bwy all gael Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn, ewch i
**www.gov.uk/grant-mamolaeth-cychwyn-cadarn/cymhwyster**

# Pryd i wneud cais am Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn

Mae pryd fyddwch yn gwneud cais am Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn yn dibynnu ar eich amgylchiadau.

Os ydych yn feichiog, gallwch wneud cais  o 11eg wythnos cyn yr wythnos y disgwylir i'ch babi gael ei eni. **Rhaid i chi wneud cais cyn i'ch babi fod yn 6 mis oed.**

Os ydych yn dod yn gyfrifol am blentyn o dan 12 mis oed, **rhaid i chi wneud cais o fewn y 6 mis cyntaf i'r plentyn fod yn eich gofal.**

Os yw'r cais yn cael ei wneud gan y tad neu bartner y fam sy'n disgwyl cyn genedigaeth y babi, dim ond os yw'r cwpl yn byw gyda'i gilydd y gallai Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn cael ei dalu. Ni all ceisiadau a wnaed gan berson sengl, oni bai am y fam sy'n disgwyl, cael ei dalu cyn i'r babi cael ei eni.

Rydym yn defnyddio partner i olygu:

- person rydych yn byw gyda nhw sy'n ŵr, gwraig neu bartner sifil i chi, neu
- person rydych yn byw gyda nhw fel petaech yn gwpl priod.

Os ydych yn cael Credyd Cynhwysol, efallai na fyddwn yn gallu gwneud penderfyniad ar eich Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn tan ar ôl eich taliad Credyd Cynhwysol nesaf.

## Cyfnod Amddiffyn Trosiannol Afghanistan a'r Wcráin

Os ganwyd eich plentyn neu eich plant fwy na 6 mis yn ôl a chyn i chi gyrraedd y DU, mae un o'r canlynol yn wir:

- eich bod wedi gadael Afghanistan oherwydd cwymp llywodraeth Afghanistan a ddigwyddodd ar 15 Awst 2021 neu
- roeddech yn byw yn yr Wcráin yn union cyn 1 Ionawr 2022 ac fe wnaethoch adael oherwydd goresgyniad Rwsia ar 24 Chwefror 2022.

Gallwch wneud cais yn ystod y cyfnod rhwng 8 Mehefin 2023 a 8 Rhagfyr 2023.

Am fwy o wybodaeth ar bryd y dylech wneud cais, ewch i **www.gov.uk/grant-mamolaeth-cychwyn-cadarn/sut-i-wneud-cais**

# Sut i wneud cais am Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn

I wneud cais am grant, mae angen i chi lenwi ffurflen sef SF100W.

Llenwch y ffurflen hon yn ofalus. Os ydych yn llenwi'r ffurflen hon gyda beiro defnyddiwch **inc du** a **PHRIF LYTHRENNAU**. **Llofnodwch y ffurflen eich hun, os gallwch.**

Gallwch gael y ffurflen drwy fynd ar-lein. Ewch i **www.gov.uk/government/publications/sure-start-maternity-grant-claim-form.cy**

Gallwch naill ai lenwi'r ffurflen ar eich cyfrifiadur, llechen neu ffôn symudol, yna ei hargraffu.

Neu gallwch argraffu ffurflen wag a'i llenwi â phen.

Anfonwch eich ffurflen gyflawn i:

**Freepost DWP SSMG**

Nid oes angen cod post neu stamp arnoch.

**Cymerwch hi i'ch swyddfa Canolfan Byd Gwaith agosaf.** Gallwch ddod o hyd i'r cyfeiriad yn **www.gov.uk/cysylltu-canolfan-byd-gwaith**

# Sut y byddwn yn eich talu

Os gallwn dalu Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn i chi, byddwn yn eich talu yn uniongyrchol i'ch cyfrif arferol.

Mae llawer o fanciau a chymdeithasau adeiladu yn gadael i chi gasglu arian o swyddfa'r post. Byddwn yn dweud wrthych pan fydd eich taliad yn ddyledus ac am faint y bydd.

Gallwch wirio eich taliadau ar gyfriflenni cyfrifon. Efallai bydd y taliadau yn dangos eich rhif Yswiriant Gwladol (NI) nesaf i unrhyw daliadau a wnaed gennym.

Os credwch fod eich taliad yn anghywir, dywedwch wrth y swyddfa sy'n eich talu ar unwaith.

# Os byddwn yn talu gormod o arian i chi

Os byddwn yn talu gormod o arian i chi mae gennym yr hawl i gymryd unrhyw arian yn ôl nad oes gennych hawl iddo. Gall hyn fod oherwydd y ffordd y mae'r system taliadau'n gweithio.

Er enghraifft, efallai y byddwch yn rhoi gwybodaeth i ni sy'n golygu bod gennych hawl i lai o arian. Weithiau ni allwn newid y swm rydym eisoes wedi'i dalu i chi. Mae hwn yn golygu ein bod wedi talu arian i chi nad oes gennych hawl iddo.

Byddwn yn cysylltu â chi cyn i ni gymryd unrhyw arian yn ôl.

# Mwy o wybodaeth

Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch am Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn gallwch siarad â rhywun yn eich canolfan waith agosaf, neu yn eich cartref os bydd hyn yn well gennych.

I ddod o hyd i'ch swyddfa Canolfan Byd Gwaith leol ewch i **www.gov.uk/cysylltu-canolfan-byd-gwaith**

Gallwch hefyd gael mwy o wybodaeth o **www.gov.uk/grant-mamolaeth-cychwyn-cadarn** neu ffoniwch linell gymorth Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn ar **0800 169 0240**.

Os ydych yn byw yn yr Alban, ewch i **www.mygov.scot/best-start-grant-best-start-foods**

Cadwch y nodiadau hyn mewn lle diogel. Nid oes rhaid eu dychwelyd gyda'r ffurflen.